# Gweithlu sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Ionawr 2024

Diweddariad olaf: 18 Ionawr 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gweithlu-gofal-cymdeithasol-ar-blynyddoedd-cynnar-syn-cael-ei-gydnabod-ai-werthfawrogin-fawr am y fersiwn diweddaraf.

**Gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n fawr.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn haeddu gwobr deg sy'n adlewyrchu eu cyfraniad hollbwysig at lesiant pobl a chymunedau.

Fel aelodau o'r Fforwm Gwaith Teg, byddwn ni’n parhau i ddylanwadu ac ymrwymo i ymgorffori Gwaith Teg a gwella amodau a thelerau'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol.

## Cydnabod a dathlu'r gweithlu

Cynhaliwyd seremoni **Gwobrau**, sy'n cydnabod, dathlu a rhannu enghreifftiau o ofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar rhagorol yng Nghymru, wyneb yn wyneb ar **21 Ebrill 2022** am y tro cyntaf ers 2018.

Yn 2022:

- cawsom **76 o geisiadau ac enwebiadau**, ar draws **7 categori**
- daeth **135 o westeion** i'r seremoni yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd, a gafodd ei ffrydio'n fyw dros y we hefyd.
- rhoddodd gwesteion sgôr gyfartalog o **92 y cant** i'r seremoni.

## ‘Dweud eich dweud' – yr arolwg cyntaf o'r gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig

Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd **900 o bobl** wedi ymateb i'n **harolwg o'r gweithlu** cyntaf Roedd yr arolwg o weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yn gofyn cwestiynau am gyflog a chyflyrau, iechyd a llesiant, a'r hyn mae pobl yn ei hoffi am weithio ym maes gofal.

Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid i weld sut y gallwn ni a'n partneriaid ddarparu cymorth yn y ffordd orau mewn ymateb i ymatebion yr arolwg.

## Cydnabyddiaeth i’r gweithlu

Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn gwerthfawrogi'r gweithlu, gyda mwy na dwy ran o dair o'r farn eu bod nhw'n gwneud gwaith da a bron i dri chwarter â hyder ynddynt.

Roedd y canlyniadau hyn yn rhan o arolwg Omnibus a gynhaliwyd yn 2022 i 2023 ymhlith 1,000 o aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.

Dywedodd bron i 80 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru y dylai gweithwyr gofal gael lefelau tebyg o gyflog a buddion i'r rhai sy'n gweithio yn y GIG.

## Cerdyn gweithiwr gofal

Bydd fersiwn newydd y cerdyn gweithiwr gofal a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn yn cael effaith gadarnhaol ar weithwyr gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar oherwydd gallan nhw elwa ar gerdyn taliad arian-yn-ôl, yn ogystal ag ystod o gynigion manwerthu. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarparwr gostyngiadau pwrpasol, Discounts for Carers.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd gan:

- **36,247** o weithwyr gofal cymdeithasol y cerdyn
- **1,756** o weithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant y cerdyn.